

**Cyfarfod Fforwm Hil Cymru  
21 Mai am 12.00pm – 1.00pm  
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol:**

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Aled Edwards	Cynrychiolydd y Fforwm Cymunedau Ffydd
Rocio Cifuentes	Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)
Maria Mesa	Women Connect First
Salah Mohammed	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Shereen Williams	Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Dwyrain Gwent
Daniel Hurford	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Uzo Iwobi	Race Council Cymru
Sunil Patel	Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
Isaac Blake	Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani

**Swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol:**

Paul Dear	Tîm Cydraddoldeb
Emma Small	Tîm Cydraddoldeb
Cerys Davies	Tîm Cydraddoldeb

**Ymddiheuriadau:**

Mandy Burrows	Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Gogledd-ddwyrain Cymru
Shahien Taj	Sefydliad Henna
David Phillips	Grŵp Cydraddoldeb Cymru
Samesunear Ali	BAWSO

**Cyflwyniadau:**

Rocio Cifuentes a Ginger Wiegand, EYST

**Croeso a Chyflwyniadau**

Cyflwynodd Arweinydd y Tŷ ei hun a chroesawodd yr aelodau i'r cyfarfod.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r papur yn nodi'r camau gweithredu a chytunwyd eu bod yn gywir.

**Eitem 1: Diweddariad am Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector gan Uzo Iwobi**

Dywedodd Uzo fod ei chyfnod o ddwy flynedd ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector wedi dod i ben ym mis Mawrth. Cafodd EYST a Race Council Cymru (RCC) eu hethol i gynrychioli'r sector pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig fel "Cynghrair BAME". Mae EYST ac RCC newydd arwyddo Memorandwm Cyd-

ddealltwriaeth, ac mae'r ddau sefydliad yn gobeithio y bydd eu partneriaeth yn arwain at waith penodol a fydd yn cael effaith gadarnhaol.

Dywedodd Uzo ei bod wedi bod yn y grŵp rhanddeiliaid addysg ond nad oedd yn ddigwyddiad rhyngweithiol, felly nid oedd wedi gallu cyfrannu. Dywedodd Sunil ei fod yn teimlo fod angen tynnu sylw Cyngor Partneriaeth y Sector Cyhoeddus at fater digwyddiadau hiliol mewn ysgolion unwaith eto er mwyn gwneud yn siŵr bod yr aelodau'n gwbl ymwybodol ohono.

Cytunodd y Fforwm y byddai'n fuddiol pe bai Arweinydd y Tŷ'n gallu cael gair gyda chadeirydd y Cyngor Partneriaeth (Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus), i weld a allai'r gynghair BAME neu aelodau o Fforwm Hil Cymru gael slot ar agenda'r Cyngor Partneriaeth er mwyn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â hil, er enghraifft materion sy'n ymwneud ag addysg ac iechyd cyhoeddus. Cadarnhaodd Arweinydd y Tŷ y byddai'n cysylltu ag Alun Davies i ofyn a fyddai'n bosibl i aelodau Fforwm Hil Cymru gyfrannu tuag at eitem ar yr agenda mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu:** Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag ysgrifenyddiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i ddechrau.

## **Eitem 2: Hanner can mlwyddiant Windrush a thrafodaeth ar sgandal Windrush**

Cyfeiriodd Arweinydd y Tŷ at nifer o gerrig milltir cysylltiedig eleni: 50 mlynedd ers Deddf Cysylltiadau Hiliol 1968, 50 mlynedd ers marwolaeth Martin Luther King, 25 mlynedd ers marwolaeth Stephen Lawrence, 70 mlynedd ers sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan fod llawer o weithwyr iechyd o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru), 100 mlynedd ers cael Pleidlais i Ferched yn y Deyrnas Unedig. Gwahoddodd Arweinydd y Tŷ yr aelodau i ystyried sut y gallent gydweithio er mwyn nodi'r cerrig milltir hyn. Cyn y cyfarfod, roedd RCC wedi anfon llythyr at holl aelodau'r Fforwm yn eu gwahodd i gydweithio yn ystod digwyddiad i gofio am Windrush ac yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon.

Dywedodd Uzo fod Black Cymru History Elders yn arwain y gwaith o drefnu dathliadau Windrush, ac y byddent yn falch o unrhyw gefnogaeth gan aelodau'r Fforwm, a bod croeso iddynt hefyd gysylltu ag RCC i awgrymu pwy ddylai gael ei wahodd i'r digwyddiad i gofio am Windrush.

Dywedodd Arweinydd y Tŷ fod Llywodraeth Cymru yn dal i alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatrys materion yn ymwneud â Chenhedlaeth Windrush, ac egluro ein bod yn dal yn bryderus ynglŷn ag effaith ei pholisi 'amgylchedd gelyniaethus' ar gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr.

Atgoffodd Aled y Fforwm fod Llywodraeth Cymru dan rwymedigaeth gyfansoddiadol i gydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae gweithredu Deddf Mewnfudo 2014 Llywodraeth y Deyrnas Unedig felly'n risg i'n Sefydliad gan nad yw'r Ddeddf Mewnfudo wedi rhoi sylw dyledus i'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae'r sgandal bresennol yn ymwneud â chenhedlaeth Windrush, ond mae'n debyg y

bydd sgandal debyg yn y dyfodol ynglŷn â mewnfudwyr o'r Undeb Ewropeaidd. A allai'r Fforwm leisio'n pryder mewn llais cryf i Lywodraeth y Deyrnas Unedig? Cytunodd Arweinydd y Tŷ i gefnogi llythyr oddi wrth y Fforwm i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Cyfeiriodd Shereen at achos yng Nghasnewydd yn ddiweddar lle roedd y Swyddfa Gartref wedi gwrthod derbyn Rhif Yswiriant Gwladol unigolyn fel prawf i brofi pwy ydoedd, a bod ond y dim i'r unigolyn fod yn ddigartref o ganlyniad i hynny. Mae'n bosibl nad yw pobl mewn sefyllfaoedd o'r fath yn gwybod ble i fynd er mwyn cael cymorth. Gellid cynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr ohebiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r effaith y mae'r polisïau amgylchedd gelyniaethus sy'n cael eu gorfodi yn ei gael, a gellid annog pobl i gysylltu â hwy er mwyn cael cymorth.

Gofynnodd Rocio a fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru gysylltu â Chyngor ar Bopeth a chyrrff eraill sy'n darparu cyngor, a darparu adnoddau iddynt o bosibl i'w galluogi i baratoi eu hunain yn well ar gyfer rhoi cymorth i gymunedau ar faterion mewnfudo, hawliau ac yn y blaen. Cadarnhaodd Paul fod swyddogion y Tîm Cydraddoldeb yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am bolisi ar wasanaethau cyngor, er mwyn gweld a oes modd cael arian o unrhyw ffynhonnell i ddarparu adnoddau ychwanegol o'r fath.

Dywedodd Maria fod grwpiau cefnogi Windrush wedi cael eu sefydlu, gan gynnwys un yn Butetown, lle mae cyfreithwyr o genhedlaeth Windrush yn cynnig cyngor a chefnogaeth yn wirfoddol. Mae rhai aelodau o'r gymuned yn teimlo'n nerfus ynglŷn â chysylltu â chyrrff swyddogol i ofyn am help (gan gynnwys CAB) ac mae'n well ganddynt gael cymorth gan grŵp lleol. Cytunodd y Fforwm bod ymgynghori â'r gymuned ynglŷn â'r math o gymorth y byddai pobl yn hoffi ei weld yn cael ei sefydlu yn hollbwysig.

#### **Camau Gweithredu:**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i ddrafftio llythyr ar ran y Fforwm i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn mynegi pryder nad yw Deddf Mewnfudo 2014 wedi rhoi sylw dyledus i'r Ddeddf Hawliau Dynol, sy'n rhwymo Llywodraeth Cymru. Byddai copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y tri Chomisiynydd yng Nghymru i dynnu sylw at effaith bosibl polisïau amgylchedd gelyniaethus yn eu meysydd demograffig.
- Aelodau'r Fforwm i gysylltu ag RCC ynglŷn â chydweithio yn y digwyddiad i gofio am Windrush a Mis Hanes Pobl Dduon.
- Dylai'r math o gymorth y mae'r gymuned eisiau ei weld mewn cysylltiad â Sgandal Windrush fod yn bwnc trafod yn y digwyddiad i gofio am Windrush.

#### **Eitem 3: Papur cynhadledd EYST, Rocio Cifuentes, Cyfarwyddwr EYST a Ginger Wiegand**

Cyflwynodd Rocio'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau cychwynnol Rhaglen Cymru Gyfan i Ymgysylltu â Phobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), ar y cyd â Ginger sydd wedi bod yn arwain tîm y prosiect. Yn ystod blwyddyn gyntaf y Rhaglen Ymgysylltu, bu'r tîm yn canolbwyntio ar wneud

cysylltiadau ag unigolion a sefydliadau perthnasol ledled Cymru, datblygu fforymau rhanbarthol a gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i gynnal digwyddiadau ymgysylltu lleol / ar lawr gwlad ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cynhaliwyd 20+ o ddigwyddiadau, ynghyd â nifer o gyfarfodydd un-i-un, gan gyrraedd 700+ o bobl a gweithio gyda 90+ o sefydliadau.

Y 4 thema allweddol a gododd o'r trafodaethau oedd:

- Hiliaeth ac islamoffobia
- Materion economaidd-gymdeithasol
- Cynrychiolaeth
- Trawsnewid

Trafodwyd y themâu allweddol hyn yn y gynhadledd flynyddol, er mwyn cytuno ar atebion posibl i'r problemau hyn, y mae eu manylion i'w gweld ym mhapur y gynhadledd.

### **Cam Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i ailanfon adroddiad y Gynhadledd at yr aelodau. Gwahodd yr aelodau i ymateb drwy anfon sylwadau i EYST cyn 15 Mehefin**

Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth a ddilynodd:

Mynegwyd pryder ynglŷn â datblygiad gyrfaoel a chyfraddau cadw athrawon BAME mewn ysgolion ledled Cymru, a'r angen i sicrhau bod gwrth-hiliaeth yn rhan o'r cwricwlwm, a'i fod yn cael ei ailbwysleisio bob blwyddyn.

Dywedodd Sunil ei fod yn credu bod y papur atebion yn cynnwys crynodeb da o'r trafodaethau a gafwyd, a rhannodd ei bryder bod y Grant Gwella Addysg yn cael ei ostwng yn sylweddol, ac y bydd hynny'n effeithio ar allu Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i weithio gyda nifer fawr o ysgolion. Dywedodd Arweinydd y Tŷ fod y costau gweinyddol wedi cael eu tynnu o'r grant uchod, sy'n golygu bod y toriad yn llai na'r hyn a nodwyd. Dywedodd Dan fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cael trafodaethau cadarnhaol ynglŷn â'r grant hwn, ac y byddai'n rhannu'r atebion cadarnhaol pan fyddai'n bosibl iddo wneud hynny.

Holodd Isaac sut y gellid monitro hiliaeth yn erbyn sipsiwn. Dywedodd Arweinydd y Tŷ ei bod wedi bod yn ymweld â safleoedd sipsiwn ledled Cymru a'i bod wedi cael trafodaethau gyda gwahanol Awdurdodau Lleol. Dywedodd Arweinydd y Tŷ nad yw'r Grant Cyfalaf Safleoedd yn cael ei ddefnyddio i'w botensial llawn ar hyn o bryd.

Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrth yr aelodau fod Llywodraeth Cymru a Chwarae Teg yn cynnal adolygiad cyflym o gydraddoldeb rhywiol ar hyn o bryd, ac y bydd archwilio cydgyfeiriadedd (*inter-sectionality*) yn rhan o hyn. Pwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i fod yn sefydliad mwy cynhwysol a'i bod yn gweithio tuag at hyn. Dywedodd Maria y byddai'n fuddiol gwybod faint o arweinwyr BAME sydd yng Nghymru, a pha rwystrau maen nhw wedi eu hwynebu wrth wneud rhywbeth tebyg yn y gorffennol. Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'n croesawu unrhyw syniadau ynglŷn â sut i symud ymlaen â'r gwaith hwn.

Dyweddodd Uzo fod Race Council Cymru yn croesawu'r adroddiad hwn a'r ffordd newydd hon o weithio. Dywedodd fod RCC yn awyddus i ddal i weithio gyda sefydliadau eraill mewn cyfnod o doriadau ariannol.

**Cam Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag aelodau o'r Fforwm i fynd ar drywydd y drafodaeth a rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf.**

#### **Eitem 4: Adolygiad o Fforwm Hil Cymru**

Cyflwynodd Arweinydd y Tŷ gynlluniau ar gyfer adolygiad o Fforwm Hil Cymru eleni. Dywedodd fod y Fforwm yn bodoli er mwyn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â hil, a'i bod yn bwysig ein bod yn dod o hyd i'r dull gorau o gael deialog ddwy ffordd effeithiol. Mae'n amser i ystyried ai'r Fforwm yw'r dull gorau o hyd, ac a fyddai dulliau eraill (er enghraifft, cynhadledd flynyddol, neu bob yn ail flwyddyn) yn well.

Amlinellodd Arweinydd y Tŷ gynlluniau ac amserlen ar gyfer yr adolygiad fel a ganlyn. Yn gyntaf, mae wedi gofyn i'r swyddogion, drwy weithio gyda phrosiect BAME Cymru gyfan, lunio map o'r sector BAME presennol, er mwyn i ni allu canfod bylchau yn y ddarpariaeth sy'n ein hatal rhag cyflawni materion sydd i fod i gael blaenoriaeth, a nodi ble mae'r pwysau ariannol ar ei waethaf.

Yn ail, mae wedi gofyn i swyddogion ymgysylltu ag aelodau'r Fforwm a rhanddeiliaid BAME ehangach yn ystod y misoedd nesaf i ofyn am eu barn ynglŷn â sut y gellid gwneud y defnydd gorau o'r gyllideb Cydraddoldeb a Chynhwysiant gyfyngedig sydd ganddi i gefnogi'r sector BAME yn ei gyfanrwydd a gwireddu ein huchelgais gyffredin o wneud Cymru yn wlad fwy cyfartal i fyw a gweithio ynddi.

Yn drydydd, mae wedi gofyn i swyddogion ymgysylltu ag aelodau'r Fforwm a rhanddeiliaid BAME ehangach ynglŷn â'r dulliau gorau y gall Llywodraeth Cymru eu defnyddio i gasglu cyngor am faterion BAME ledled Cymru a chymryd rhan mewn deialog ddwy ffordd am faterion yn ymwneud â hil.

Apeliodd ar holl aelodau'r Fforwm i ymgysylltu â'i swyddogion yn ystod y broses hon, i helpu i "gynllunio'r dyfodol". Bydd adroddiad yr adolygiad yn barod yn yr hydref, a chynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm Hil yn ystod y cyfnod hwn.

#### **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd yr aelodau'n cael eu hysbysu cyn bo hir ynglŷn â dyddiad y cyfarfod nesaf.